Office for National Statistics

Strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr

8 Mehefin 2010

Rhifyn: **Papur Ymgynghori**

Golygydd: **Matthew Fido**

Swyddfa Ystadegau Gwladol

Papur Ymgynghori

Cyhoeddiad gan Ystadegau Gwladol

Caiff Ystadegau Gwladol eu cynhyrchu yn unol â safonau proffesiynol uchel a nodir yng Nghod Ymarfer yr Ystadegau Gwladol. Cânt eu cynhyrchu heb unrhyw ddylanwad gwleidyddol.

Amdanom ni

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yw swyddfa weithredol Awdurdod Ystadegau'r DU, adran anweinidogol, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Senedd. SYG yw cynhyrchydd ystadegau unigol mwyaf Llywodraeth y DU. Mae'n casglu gwybodaeth am gymdeithas ac economi'r DU sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol SYG yn atebol yn uniongyrchol i'r Ystadegydd Cenedlaethol, sef Prif Weithredwr yr Awdurdod a Phennaeth Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth

Mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn rhwydwaith o ystadegwyr proffesiynol a'u staff sy'n gweithredu yn Swyddfa'r Ystadegau Gwladol ac o fewn mwy na 30 o adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth.

Cysylltiadau

Y cyhoeddiad hwn

I gael gwybodaeth am gynnwys y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â Matthew Fido
Ffôn: 0845 601 3034
E-bost: stakeholderconsultation@ons.gsi.gov.uk

Ymholiadau eraill cwsmeriaid

Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid SYG
Ffôn: 0845 601 3034
Rhyngwladol: +44 (0)845 601 3034
Minicom: 01633 815044
E-bost: info@ons.gsi.gov.uk
Ffacs: 01633 652747
Post: Ystafell 1.101, Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Caerdydd, Casnewydd, De Cymru NP10 8XG
www.ons.gov.uk

Ymholiadau'r cyfryngau

Ffôn: 0845 604 1858
E-bost: press.office@ons.gsi.gov.uk

Hawlfraint ac atgynhyrchu

(h) Hawlfraint y Goron 2009

Cyhoeddwyd gyda chaniatâd Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI)

Gallwch ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf at ddibenion ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol o fewn sefydliad ar yr amod y caiff ei ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod bod gan y Goron hawlfraint yn y deunydd ac mae'n rhaid nodi teitl y cyhoeddiad gwreiddiol. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Er mwyn ailddefnyddio'r deunydd hwn rhaid i chi wneud cais am Drwydded Click-Use gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn:

Office of Public Sector Information, Crown Copyright Licensing and Public Sector Information, Kew, Richmond, Surrey, TW9 4DU

Ffôn: 020 8876 3444

www.opsi.gov.uk/click-use/index.htm

Cwmpas yr ymgynghoriad

Pwnc yr ymgynghoriad hwn	Strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr SYG
Cwmpas yr ymgynghoriad hwn	Ceisio barn ar strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr arfaethedig
Cwmpas daearyddol	Ni chaiff ffiniau eu nodi

Gwybodaeth sylfaenol

I	Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bawb sydd wedi defnyddio neu sydd wrthi'n defnyddio ystadegau SYG.
Hyd	Tan 1 Medi 2010
Ymholiadau	Matthew Fido Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid Swyddfa Ystadegau Gwladol Ystafell 1.301 Adeiladau'r Llywodraeth Heol Caerdydd Casnewydd NP10 8XG Ffôn: 0845 601 3034 E-bost: stakeholderconsultation@ons.gov.uk
Sut i ymateb	Edrychwch ar Atodiad 5 Cyfeiriad postio fel yr uchod E-bost: stakeholderconsultation@ons.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol o gymryd rhan	Mae hwn yn ymgynghoriad ysgrifenedig. Cysylltwch â'r tîm ymgynghori â Rhanddeiliaid os oes angen copi arnoch o'r papur hwn mewn unrhyw fformat, megis Braille, ffont mawr neu sain.
Ar ôl yr ymgynghoriad	Cyhoeddir crynodeb o ymatebion cyn unrhyw gamau gweithredu pellach neu ar y cyd â chamau gweithredu

Rhagair

Croeso i'n papur ymgynghori ar y strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr.

Rwyf am i'n defnyddwyr weld eu blaenoriaethau wedi'u hadlewyrchu'n glir yn ein cynlluniau busnes. Y cam cyntaf tuag at hyn yw ymgysylltu mewn ffordd fwy hyblyg, sy'n addasu i gydberthnasau sy'n newid ac sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddefnyddwyr ein hystadegau. Y strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr yw'r gyntaf o sawl strategaeth sy'n targedu rhanddeiliaid, a ategir gan Fframwaith Rhanddeiliaid SYG.

A wnewch chi gymryd yr amser i ystyried ein cynigion ac edrychaf ymlaen at gael eich sylwadau.

Stephen Penneck

Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynnwys

Cwmpas yr ymgynghoriad 3
Gwybodaeth sylfaenol 3
Rhagair 4
Cynnwys 5
1.0 Cefndir 6
2.0 Dogfen ymgynghori 8
3.0 Amrywiaeth 14
4.0 Mesur a chofnodi 14
Atodiad 1 Fframwaith rhanddeiliaid SYG 15
Atodiad 3 Rolau a chyfrifoldebau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid 18
Atodiad 4 Y saith maen prawf ymgynghori 19
Atodiad 5 Dogfen ymateb i ymgynghoriad 20

1.0 Cefndir

1.1 Cydnabyddiaethau

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) eisoes yn ymgysylltu â'i rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o ffyrdd (Atodiad 2 a 3). Ein nod wrth lunio'r papur ymgynghori hwn oedd adolygu'r arferion cyfredol a nodi dulliau newydd a gwell o ymgysylltu. Drwy nodi dulliau newydd, rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid pwysig dros y 12-18 mis diwethaf drwy weithdai a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Hefyd, rydym wedi ymgynghori â'r Fforwm Defnyddwyr Ystadegau ac Awdurdod Ystadegau'r DU, felly maent wedi bod yn ymwybodol o'r cynigion hyn. Mae'r grwpiau a'r cyfarfodydd ffocws dilynol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Rhanddeiliaid a'r Strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr.

1.2 Cyflwyniad

Diben y papur ymgynghori hwn yw cael barn ar y Strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr i'r SYG. Mae'n nodi pob un o'r dulliau ymgysylltu, yn diffinio'r broses gyfathrebu ac addewid SYG i bob un.

Gellir lawrlwytho'r papur yn www.ons.gov.uk

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghoriadau, lle nodir y meini prawf yn Atodiad 4 i'r papur.

Mae SYG yn croesawu sylwadau gan unrhyw un ac felly yn gwahodd ymatebion gan bartïon sydd â diddordeb.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 1 Medi 2010. Rydym yn disgwyl cyhoeddi crynodeb o ymatebion cyn neu ar y cyd ag unrhyw gamau gweithredu pellach, a bydd hwn ar gael ar wefan SYG.

1.3 Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 1 Medi 2010.

Gallwch anfon eich sylwadau drwy neges e-bost atom yn: stakeholderconsultation@ons.gov.uk gan ddefnyddio'r templed yn Atodiad 5, sydd ar gael fel dogfen 'word' ar wefan ein hymgynghoriad.

Neu gallwch ysgrifennu atom yn:

Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystafell 1.301, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Caerdydd, Casnewydd NP10 8XG

Gellir lawrlwytho copïau ychwanegol o'r papur hwn o'n gwefan yn www.ons.gov.uk.

1.4 Fformatau gwahanol

Dylech gysylltu â'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid os oes angen copi arnoch o'r papur ymgynghori hwn mewn unrhyw fformat arall, megis Braille, ffont mawr neu sain.

1.5 Ymatebion: cyfrinachedd ac ymwadiad

Efallai y caiff y wybodaeth y byddwch yn ei hanfon atom ei throsglwyddo i gydweithwyr yn SYG, y Llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

At hynny, gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998).

Os hoffech i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam rydych o'r farn bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol ymhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar SYG.

Sicrhewch fod eich ymateb wedi'i farcio'n glir os hoffech i'ch ymateb a'ch enw gael eu cadw'n gyfrinachol.

Caiff ymatebion cyfrinachol eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o nifer y sylwadau a gafwyd.

Byd SYG yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data; gan amlaf bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

Ni chaiff ymatebion unigol eu cydnabod oni wneir cais penodol am hynny.

Gofynnir i gyrff cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

2.0 Dogfen ymgynghori

2.1 Cyflwyniad

'SYG - ble y mae pobl yn troi ati'n gyntaf i gael ystadegau yr ymddiriedir ynddynt' yw gweledigaeth newydd SYG. Rydym am fod yn sefydliad lle mae pobl yn gwerthfawrogi ein hystadegau, ein gwaith dadansoddi a'n cyngor. Dim ond drwy weithio gyda phobl a sefydliadau eraill a thrwyddynt y gellir cyflawni hyn.

Mae ein rhanddeiliaid yn unigolion neu'n grwpiau sy'n dibynnu ar SYG i gyflawni eu nodau eu hunain ac y mae SYG, yn ei dro yn dibynnu arnynt hwy. Mae pob un yn cael effaith ar yr hyn mae SYG yn ei wneud a pha mor dda mae'n ei wneud. Er mwyn datblygu hyn, caiff nifer o strategaethau a danategir gan Fframwaith Rhanddeiliaid eu cyhoeddi (Atodiad 1). Bydd y rhain yn cynnwys strategaeth ar gyfer:

- **Defnyddwyr** - unigolion neu grwpiau sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, ein hystadegau.
- **Ymatebwyr** - y bobl, y busnesau a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn ein harolygon
- **Partneriaid** - y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a chyflenwadau i SYG ac sy'n cydweithio â SYG i greu ein hystadegau, p'un a yw hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- **Cyllidwyr** - y sefydliadau sy'n rhoi cyllid llinell sylfaen i SYG, gan gynnwys Trysorlys EM ac adrannau'r llywodraeth ac eraill sy'n cyllido rhai o'n hystadegau a'n rhaglenni allweddol
- **Cyflogeion SYG** - pobl sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion SYG a'r undebau llafur sy'n eu cynrychioli
- **Cyrff eraill** - y rheini sy'n gyfrifol am SYG, fel Awdurdod Ystadegau'r DU, y Senedd, Eurostat, a sefydliadau neu gyrff sy'n mynegi barn yn gyhoeddus am SYG, fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Masnach y Llywodraeth

Mae SYG yn cydnabod y gallai sefydliad gael ei gynrychioli mewn nifer o strategaethau rhanddeiliaid yn ogystal ag o fewn pob strategaeth ei hun, er enghraifft, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ddarparwr data yn ogystal â chwsmer am ystadegau SYG.

2.2 Strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ein defnyddwyr ac yn nodi sut y byddwn yn annog ac yn hyrwyddo ymgysylltu â defnyddwyr fel sbardun i wella a gwireddu ein gweledigaeth.

Caiff yr ystadegau a gynhyrchir gennym er budd y cyhoedd eu cynhyrchu am ddim i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr ehangach.

Diffinnir defnyddwyr SYG yn y ddogfen strategaeth hon fel 'unigolion neu grwpiau sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio ein hystadegau'.

Mae i'r strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr ddau nod:

- troi defnyddwyr yn gwsmeriaid, a chwsmeriaid yn llysgenhadon

- ehangu ein hymgysylltu â defnyddwyr

Drwy strategaeth ymgysylltu effeithiol, ein nod yw deall mwy am ein defnyddwyr mynych ac anfynych drwy wella ein deialog â hwy, er mwyn iddynt ddod yn gwsmeriaid hyddysg i ni. Maes o law, bydd gweithio mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid yn eu hannog i weithredu fel llysgenhadon i SYG, gan hyrwyddo ein hystadegau a'n gwasanaethau i'w cymheiriaid.

Mae pob rhanddeiliad yn bwysig i SYG. Yn hanesyddol, mae SYG wedi canolbwyntio ei waith ymgysylltu ar y 'ceiswyr mwyaf pwerus, traddodiadol a phwysig'. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 i lunio ystadegau swyddogol er budd y cyhoedd, ac mae'n ofynnol yn ôl Egwyddor 1 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol i ganolbwyntio ar ystadegau swyddogol sy'n bodloni gofynion amrywiaeth eang o ddefnyddwyr. Felly, mae'r strategaeth hon yn dangos bod SYG yn symud ymlaen tuag at ddull mwy hyblyg o ymgysylltu sy'n addasu i gydberthnasau sy'n newid ac sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddefnyddwyr ein hystadegau

Mae SYG yn ymrwymedig i ddod yn fwy rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar atebion. Dim ond pan ddefnyddir ein hystadegau y maent o werth ac mae ein rhanddeiliaid yn noddwyr, yn eiriolwyr, yn bartneriaid ac yn ddefnyddwyr pwysig o'n hystadegau. Mae eu safbwyntiau a'u cymorth yn allweddol i lwyddiant SYG. Mae'n hanfodol bod SYG yn deall pob rhanddeiliad ac yn ymgysylltu'n effeithiol â hwy er mwyn sicrhau y caiff gwledigaeth SYG ei gwireddu.

Drwy ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, mae SYG yn disgwyl:

- gwneud ein perfformiad cyffredinol yn fwy effeithiol
- dod o hyd i atebion
- sefydlu a gwella hygrededd SYG
- dod yn fwy arloesol, datblygu busnes newydd a manteisio ar farchnadoedd newydd
- nodi problemau newydd cyn gynted â phosibl
- cael gwell dealltwriaeth o'r safbwynt cymdeithasol
- defnyddio arbenigedd a chyngor allanol yn SYG i ddatblygu ein hamcan o ddod yn sefydliad dysgu
- creu darlun cyhoeddus mwy cadarnhaol, gwella ein cydberthnasau cymunedol a gwella ein henw da
- ymdrin ag adborth negyddol a'i liniaru cyn gynted â phosibl
- gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaethau ymhlith ein grwpiau o randdeiliaid

Mae strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr SYG yn adeiladu ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, Egwyddor 1: Diwallu anghenion defnyddwyr a Phrotocol 1: Ymgysylltu â defnyddwyr, yn ogystal â Fframwaith Rhanddeiliadi SYG. Yn benodol, mae SYG am:

- **fod yn gynhwysol**, gan nodi amrywiaeth eang o ddefnyddwyr
- darparu **gwybodaeth** glir sy'n agored ac yn hygyrch i bawb
- **ymgysylltu** â defnyddwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n briodol iddynt

- archwilio a dogfennu **anghenion** defnyddwyr, y defnydd a wneir o'n hystadegau a'r penderfyniadau y maent yn eu llywio
- cyhoeddi **adroddiadau ystadegol** sy'n ystyried anghenion defnyddwyr
- **bod yn agored** ac yn **onest**, cyhoeddi gwybodaeth am brofiad defnyddywr, ansawdd data ac amseroldeb adroddiadau
- **ymgynghori** â defnyddwyr cyn gwneud newidiadau sy'n effeithio ar ystadegau SYG
- rhoi adborth a dangos **effaith** a **dylanwad** y sylwadau a geir

2.3 Ymgysylltu â defnyddwyr - ffyrdd o ymgysylltu

2.3.1 Trosolwg

Bydd y ffordd y mae SYG yn ymgysylltu yn amrywio yn dibynnu ar y diben a'r defnyddwyr yr ymgynghorir â hwy. Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu, mae'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol i ni wella ein hymgysylltu â chwsmeriaid o ran ansawdd ystadegol, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn deall ansawdd ein hystadegau ac yn sefydlu i ba raddau y mae'r ansawdd yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Hefyd, mae gofynion diogelwch y llywodraeth a'r pryder parhaus am sicrwydd data yn golygu bod yn rhad i ni sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymiadau o ran diogelwch ac yn cadw diogelwch ein hystadegau.

Mae'r tabl isod yn crynhoi pob un o'r dulliau ymgysylltu. Mae hefyd yn diffinio'r broses gyfathrebu ac addewid SYG i bob un.

	Amcan	Cyfathrebu	Addewid SYG	Enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu
Cyfathrebu	Hysbysu ac addysgu rhanddeiliaid	Un-ffordd: SYG i'r rhanddeiliad	'Bydd SYG yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'	Marchnata Cyfathrebu
Ymgynghori	Cael gwybodaeth ac adborth gan rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau a wneir yn fewnol	Dwy-ffordd cyfyngedig SYG yn gofyn cwestiynau a rhanddeiliaid yn ymateb	'Bydd SYG yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, yn gwrando ar eich pryderon, yn ystyried eich safbwyntiau ac yn rhoi adborth ar ein penderfyniadau'	Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid Arolygon ar y we Cyfarfodydd un-i-un
Deialog	Gweithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu deall a'u hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau	Dwy-ffordd neu aml-ffordd: rhwng SYG a rhanddeiliaid	'Bydd SYG yn gweithio gyda chi i sicrhau y caiff eich pryderon eu deall, i ddatblygu cynigion gwahanol a rhoi adborth am sut mae barn rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar ein proses o wneud penderfyniadau'	Fforymau Sioeau Teithiol Cael mewnbwn ar strategaethau cyfathrebu
Partneriaethau	Partneru neu gynnull â rhwydwaith o randdeiliaid i ddatblygu atebion a chamau gweithredu y cytunir arnynt ar y cyd	Dwy-ffordd neu aml-ffordd: dysgu, negodi	'Bydd SYG yn disgwyl i chi roi cyngor uniongyrchol a chymryd rhan yn y gwaith o ddod o hyd i atebion i heriau a rennir a'u rhoi ar waith '	Prosiectau Memorandwm cyd-ddealltwriaeth
Monitro	Monitro barn rhanddeiliaid	Un-ffordd: rhanddeiliad i SYG	'Bydd SYG yn monitro eich safbwyntiau'	Ymchwil Cyfryngau

Caiff ein 'defnyddwyr' eu categoreiddio'n chwe grŵp defnyddwyr a diffinnir y rhain fel a ganlyn:

- **Cwsmeriaid polisïau pwysig** - deialog rhwng cynhyrchwyr Ystadegau Swyddogol a chwsmeriaid polisi, gweinidogion llywodraeth y DU a chyrff Ewropeaidd a Rhyngwladol. Caiff cydberthnasau fel arfer eu llywodraethu drwy goncordat
- **Adrannau eraill o'r llywodraeth** - defnyddwyr ein hystadegau lle nad oes dulliau angenrheidiol ffurfiol eraill ar gael, er enghraifft concordat, cytundeb lefel gwasanaeth neu ddogfen debyg. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys asiantaethau datblygu
- **Awdurdodau lleol** - pob awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- **Academyddion ac ymchwilwyr** - grwpiau diddordeb arbenigol, sefydliadau ymchwil, sefydliadau academaidd, cyfryngwyr data, sefydliadau proffesiynol a chymdeithasau dysgedig
- **Cyhoedd** - mae'n cynnwys y dinesydd a gynrychiolir gan grŵp diddordeb neu grŵp defnyddwyr. Mae sefydliadau eraill a gynhwysir yn y grŵp hwn yn cynnwys busnesau, sefydliadau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol
- **Newyddiadurwyr/cyfryngau** - mae'r grŵp hwn yn cynnwys asiantaethau cyfryngau'r DU

Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion pob math o ymgysylltu y gall pob defnyddiwr ei ddisgwyl gan SYG.

2.3.2 Cyfathrebu

Cyfleu gwybodaeth am SYG, ei gynlluniau a'i gynhyrchion y mae defnyddwyr am gael gwybod amdanynt ac y mae angen iddynt gael gwybod amdanynt. Mae SYG am symud tuag at addysgu defnyddwyr fel y gallant fod yn gyfranogwyr hyddysg mewn deialogau ac ymgynghoriadau. Bydd SYG yn onest, yn dryloyw, yn gywir ac yn amserol ym mhob cyfathrebiad.

	Cwsmer polisi pwysig	Adrannau eraill o'r llywodraeth	Awdurdodau lleol	Academyddion	Cyhoedd	Cyfryngau
Rhannu gwybodaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hyfforddi cyflogeion	✓	✓				
Briffiau a chylchgronau	✓	✓	✓	✓		
Cynllun Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cylchlythyrau, gwefannau, negeseuon e-bost	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Areithiau, cynadleddau a chyflwyniadau	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Datganiadau i'r wasg	✓	✓	✓		✓	✓
Cytundebau lefel gwasanaeth ac asesiadau	✓					
Cyfarfodydd strategol	✓	✓				

2.3.3 Ymgynghori

Bydd SYG yn gwella ei gwaith gwneud penderfyniadau a'i pherfformiad drwy gael safbwyntiau allanol ar faterion cyfredol a materion sy'n codi, safbwyntiau o SYG (i newid arferion a pholisïau corfforaethol) yn ogystal ag effaith (perfformiad, cynnyrch, gwasanaethau a chyfathrebu). Drwy ymgynghori â defnyddwyr, bydd SYG yn defnyddio dulliau ffurfiol ac anffurfiol o gyfathrebu, ac mae SYG yn ymrwymedig i roi adborth i randdeiliaid ynglŷn â sut mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ac wedi effeithio ar gynigion. Bydd y broses yn brydlon ac yn dryloyw.

	Cwsmer polisi pwysig	Adrannau eraill o'r llywodraeth	Awdurdodau lleol	Academyddion	Cyhoedd	Cyfryngau
Arolygon, fforymau ar-lein	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Grwpiau ffocws, cyfarfodydd rhanddeiliaid	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Panelau cynghori/cysylltu	✓	✓	✓	✓		
Cyfarfodydd un-i-un	✓	✓				

2.3.4 Deialog

Bydd SYG yn cynyddu ei ddeialog â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod SYG yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, anghenion a dewisiadau amgen ac yn cynnal dealltwriaeth, ymddiriedaeth a chydweithrediad ar faterion, strategaethau a mentrau. Mae SYG yn ymrwymedig i wrando ar bob barn waeth pa mor wahanol ydynt a, lle y bo'n bosibl, cyfaddawdu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith defnyddwyr.

	Cwsmer polisi pwysig	Adrannau eraill o'r llywodraeth	Awdurdodau lleol	Academyddion	Cyhoedd	Cyfryngau
Cyfarfodydd rhanddeiliaid	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Panelau cynghori	✓	✓		✓		
Ymgysylltu rhith	✓		✓	✓		
Fforymau a sioeau teithiol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Strategaeth Gyfathrebu	✓	✓	✓	✓	✓	✓

2.3.5 Partneriaethau

Cynnwys sefydliadau sydd â diddordebau gwahanol, barn, gwerthoedd a diwylliant a rennir i gyflawni amcan penodol.

	Cwsmer polisi pwysig	Adrannau eraill o'r llywodraeth	Awdurdodau lleol	Academyddion	Cyhoedd	Cyfryngau
Cynghreiriau	✓	✓		✓		
Timau prosiect	✓	✓	✓	✓		
Memorandwm Dealltwriaeth	✓	✓				

2.3.6 Monitro

Sicrhau bod dulliau priodol ar waith i gofnodi, monitro a gweithredu ar adborth a sylwadau defnyddwyr ar ein hystadegau

	Cwsmer polisi pwysig	Adrannau eraill o'r llywodraeth	Awdurdodau lleol	Academyddion	Cyhoedd	Cyfryngau
System Gwybodaeth Reoli	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Ymchwil	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyfryngau	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gan ystyried y cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau, mae'n afrealistig meithrin perthynas fusnes â phob defnyddiwr ac mae'n hanfodol wrth ystyried ymgysylltu â defnyddwyr, ein bod yn nodi ac yn blaenoriaethu materion rydym yn ymgynghori arnynt. Mae angen i ni gydnabod bod rhanddeiliaid yn rhoi lefelau gwahanol o bwys ar rai materion a bydd hwn yn ffactor wrth ddatblygu'r dull ymgysylltu.

Wrth benderfynu p'un a oes angen i ni ymgysylltu â defnyddwyr ai peidio, byddwn yn ystyried y canlynol:

Ymgysylltu drwy ymgynghoriad a deialog yn y sefyllfaoedd canlynol:

- pan fo mater pwysig yn wynebu SYG
- pan fo gorgyffwrdd rhwng amcanion SYG a rhai ein rhanddeiliaid
- pan fo pryder ynghylch effaith strategaeth neu gyhoeddiad SYG
- pan fo angen i ni wella ein dealltwriaeth o fater penodol
- pan fo cyfle i ddatblygu a gwella ein hamcanion neu ein strategaethau
- pan fo gennym ddigon o reolaeth neu ddylanwad dros benderfyniad
- pan fo angen i ni ddatblygu rhagor o opsiynau ar gyfer penderfyniad neu gam gweithredu arfaethedig

- pan nad yw penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn derfynol eto

Efallai mai dim ond yn y sefyllfaoedd canlynol y bydd ymgysylltu ar ffurf cyfathrebu:

- pan nad oes fawr ymrwymiad gan SYG i fater
- pan fo SYG eisoes wedi gwneud penderfyniadau ar y mater
- pan nad oes digon o amser i ymgysylltu â defnyddwyr
- pan fo cost yn atal hyn
- pan fo'n amcan tymor byr

3.0 Amrywiaeth

Mae SYG yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth ym mhopeth mae'n ei wneud. Mewn unrhyw strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr bydd unigolion a grwpiau sydd mewn perygl o gael eu heithrio o ymgysylltu. Ni fydd y rhain yn gyfyngedig i'r grwpiau hynny rydym yn ymrwymedig iddynt o dan Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth SYG, ond byddant yn eu cynnwys. Byddwn yn ystyried amrywiaeth ym mhopeth a wnawn, er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio iaith syml ac amrywiaeth o fformatau lle y bo'n gymwys.

Yn 2010/11 byddwn yn cwblhau asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyffredinol.

4.0 Mesur a chofnodi

Yn 2010/11 bydd SYG yn dechrau sefydlu ei llinell sylfaen ymgysylltu fel y gallwn fonitro ein cynnydd yn y blynyddoedd sydd i ddod. Byddwn yn ceisio adborth gan bob un o'n rhanddeiliaid yn flynyddol ac ar sail ad hoc gan ddefnyddio'r amryw gyfryngau sydd ar gael i SYG.

Yn ystod 2010/11 byddwn yn cyhoeddi cyfres ddrafft o fesurau i fonitro ein perfformiad ymgysylltu â defnyddwyr ac yn sicrhau bod SYG a defnyddwyr yn fodlon ar y cynigion. Caiff y targedau hyn eu mesur ar Gerdyn Sgorio Corfforaethol SYG, byddant yn rhan o'n cynllun strategol a chânt eu cofnodi'n gyhoeddus.

Atodiad 1 Fframwaith rhanddeiliaid SYG

Cyflwyniad

Mae SYG yn darparu ystadegau swyddogol annibynnol a pherthnasol y gellir ymddiried ynddynt am yr economi a'r gymdeithas er mwyn helpu ein cwsmeriaid i wneud penderfyniadau hyddysg. Dim ond pan ddefnyddir ystadegau y maent o werth. Rydym yn ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn sicrhau ein bod yn cynhyrchu'r ystadegau a'r gwaith dadansoddi sydd ei angen. Ein gweledigaeth yw mai at SYG y bydd pobl yn troi'n gyntaf i gael ystadegau yr ymddiriedir ynddynt. Rydym am i'n cwsmeriaid werthfawrogi ein hystadegau, ein gwaith dadansoddi a'n cyngor sy'n llywio eu penderfyniadau ac sy'n bodloni eu blaenoriaethau. Mae ein rhanddeiliaid yn noddwyr, yn eiriolwyr ac yn bartneriaid pwysig ac mae eu barn a'u cymorth yn allweddol i lwyddiant SYG. Felly, bydd deall ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu'n effeithiol â hwy yn cefnogi'r broses o wireddu ein gweledigaeth. Ein nod yw ymgysylltu â'n hamrywiaeth lawn o randdeiliaid, gan gael y cydbwysedd cywir o ryngweithio gyda phob un o'n grwpiau o randdeiliaid a ffurfio cydberthnasau sy'n meithrin gwell dealltwriaeth o angen ar y cyd, gan arwain at ddeialog gwirioneddol sy'n grymuso ein rhanddeiliaid.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio amrywiaeth eang o randdeiliaid SYG ac yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu pob gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn SYG.

Rhanddeiliaid SYG

Mae ein rhanddeiliaid yn unigolion neu'n grwpiau sy'n dibynnu ar SYG i gyflawni eu nodau eu hunain ac y mae'r sefydliad yn ei dro yn dibynnu arnynt - maent i gyd yn cael effaith ar SYG neu'n 'rhan' ohono. Er mwyn datblygu'r strategaeth hon, mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer y grwpiau canlynol: defnyddwyr, ymatebwyr, partneriaid, cyllidwyr, cyflogeion SYG ac undebau llafur, a chyrff eraill sy'n gyfrifol am SYG.

- **Defnyddwyr** - unigolion neu grwpiau sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, ein hystadegau.
- **Ymatebwyr** - y bobl, y busnesau a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn ein harolygon
- **Partneriaid** - y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a chyflenwadau i SYG ac sy'n cydweithio â SYG i greu ein hystadegau, p'un a yw hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- **Cyllidwyr** - y sefydliadau sy'n rhoi cyllid llinell sylfaen i SYG, gan gynnwys Trysorlys EM ac adrannau'r llywodraeth ac eraill sy'n cyllido rhai o'n hystadegau a'n rhaglenni allweddol
- **Cyflogeion SYG** - pobl sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion SYG a'r undebau llafur sy'n eu cynrychioli
- **Cyrff eraill** - y rheini sy'n gyfrifol am SYG, fel Awdurdod Ystadegau'r DU, y Senedd, Eurostat, a sefydliadau neu gyrff sy'n mynegi barn yn gyhoeddus am SYG, fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Masnach y Llywodraeth

Egwyddorion ymgysylltu

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i bob gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn SYG.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **bod yn gynhwysol**, gan nodi amrywiaeth eang o ddefnyddwyr
- darparu **gwybodaeth** glir sy'n agored ac yn hygyrch i bawb
- **ymgysylltu** â defnyddwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n briodol iddynt
- archwili o a dogfennu **anghenion** defnyddwyr, y defnydd a wneir o'n hystadegau a'r penderfyniadau y maent yn eu llywio
- cyhoeddi **adroddiadau** ystadegol sy'n ystyried anghenion defnyddwyr
- **bod yn agored** ac yn **onest**, cyhoeddi gwybodaeth am brofiad defnyddywr, ansawdd data ac amseroldeb adroddiadau
- **ymgynghori** â defnyddwyr cyn gwneud newidiadau sy'n effeithio ar ystadegau SYG
- rhoi a dborth a dangos **effaith** a **dylanwad** y sylwadau a geir

Atodiad 2 Dulliau cyfredol o ymgysylltu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosesau cyfredol rydym yn eu defnyddio wrth ymgysylltu â'n defnyddwyr.

- **Cyfrifon allweddol** - ymgynghorir â nifer o'n defnyddwyr fel rhan o'n cyfrifon allweddol. Caiff ein cyfrifon allweddol eu tanategu gan gytundebau lefel gwasanaeth ac mae pob 'cwsmer' yn rhoi asesiad blynyddol o berfformiad SYG yn ogystal â mynychu cyfarfodydd rheolaidd. Bydd defnyddwyr data SYG a gwmpesir gan y trefniant hwn yn cynnwys: Banc Lloegr, Trysorlys EM, yr Adran Iechyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Gweinyddiaethau Datganoledig, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
- **Grwpiau defnyddwyr Arolygon Cartrefi a grwpiau defnyddwyr y cyfrifad** - grwpiau defnyddwyr trawsadrannol
- **Grwpiau defnyddwyr pwnc**, fel Iechyd a Chyfrifon Cenedlaethol, gan gynnwys amrywiaeth o ddefnyddwyr arbenigol
- **Fforwm Defnyddwyr Ystadegau** - trafodaethau lefel uchel gyda chynrychiolwyr defnyddwyr anllywodraethol a ddelir yn chwarterol
- **Partneriaeth Gwybodaeth Llywodraeth Ganolog a Lleol** - a gadeirir gan Bennaeth y Proffesiwn yn Llywodrath Ganolog a Lleol - i hwyluso trafodaethau ar anghenion data y llywodraeth ganolog oddi wrth llywodraeth leol ac yn ei dro, sut y gall y llywodraeth ganolog gynorthwyo anghenion gwybodaeth llywodraeth leol. Mae gan Bartneriaeth Gwybodaeth Llywodraeth Ganolog a Lleol nifer o is-grwpiau
- **Gweinyddiaethau datganoledig** - Pwyllgor Rhyng-Weinyddiaeth a gadeirir gan yr Ystadegydd Cenedlaethol: Llywodraeth yr Alban - ScotStat, Pwyllgor Cynghori ar Ystadegau Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru - Pwyllgor Cysylltu Ystadegol Cymru
- **Grwpiau cynghori** - ymgynghorir â chynrychiolwyr a grwpiau defnyddwyr trawsadrannol ar feysydd a phynciau penodol, er enghraifft cynhyrchiant, demograffeg a methodoleg y sector cyhoeddus

Atodiad 3 Rolau a chyfrifoldebau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rôl Bwrdd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Cadeirir Bwrdd SYG gan yr Arglwydd Rowe-Beddoe o Gilgeti, Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU gyda sydd â chyfrifoldeb am SYG. Mae Bwrdd SYG yn goruchwylio strategaeth a blaenoriaethau SYG ac yn monitro cyllideb a rhaglen waith SYG.

Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr Gweithredol

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am oruchwylio holl weithgarwch ein rhanddeiliaid drwy ddefnyddio'r Cynllun Strategol drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Bydd yn gwerthuso ein hymgysylltu â defnyddwyr ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid a'i effaith ar wireddu gweledigaeth SYG.

Mae gan gyfarwyddwyr gweithredol eisoes berthynas waith 'cyfrif allweddol' â rhanddeiliaid allweddol ac maent yn benodol gyfrifol am:

- gynnal perthynas â'r rhanddeiliad penodol
- sicrhau bod ein perthynas yn gydlynol ac yn amserol
- trosglwyddo gwybodaeth neu sylwadau perthnasol i'r Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd SYG

Dirprwy Gyfarwyddwyr

Mae dirprwy gyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal perthynas waith â chwsmeriaid a rhanddeiliaid polisi pwysig. Caiff gwybodaeth ei throsglwyddo i aelod perthnasol y Pwyllgor Gweithredol.

Cyflogeion SYG

Mae cyflogeion SYG yn allweddol i gyflawni ein strategaeth defnyddwyr gan eu bod mewn cyswllt rheolaidd o ddydd i ddydd â'n defnyddwyr. Gallai hwn fod yn ein canolfan cyswllt cwsmeriaid, ein llyfrgell a'n gwasanaethau gwybodaeth neu ymhlith y timau arolwg a gweithredu. Hefyd, mae gennym weithlu maes mawr iawn sy'n cyfarfod ag aelodau’r cyhoedd yn ddyddiol gan gasglu gwybodaeth ar gyfer ein harolygon cymdeithasol.

Atodiad 4 Y saith maen prawf ymgynghori

Mae'r Ymgynghoriad yn dilyn Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghoriadau - nodir y meini prawf isod:

1 - Pryd i ymgynghori

Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fydd cyfle i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.

2 - Hyd ymarferion ymgynghori

Dylai ymgynghoriadau fel arfer bara am hyd at 12 wythnos gan ystyried amserlenni hwy pan fo'n ymarferol ac yn synhwyrol.

3 - Eglurder cwmpas ac effaith

Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, beth a gynigir, y cyfle i ddylanwadu a chost a budd disgwyliedig y cynigion.

4 - Hygyrchedd yr ymgynghoriadau

Dylid cynllunio ymgynghoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i'r bobl y dylai'r ymgynghoriad eu cyrraedd ac y cânt eu targedu'n glir atynt.

5 - Baich yr ymgynghoriad

Mae'n hanfodol bod baich yr ymgynghoriad cyn lleied â phosibl os yw ymgynghoriadau am fod yn effeithiol ac os bydd ymgyngoreion yn derbyn y prosesau.

6 - Ymatebolrwydd ymgynghoriadau

Dylid dadansoddi ymatebion ymgynghoriadau yn ofalus a dylid rhoi adborth clir i gyfranogwyr ar ôl yr ymgynghoriad.

7 - Y gallu i ymgynghori

Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau gael canllawiau ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ymgynghoriadau llawn ar gael yn:http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/consultation-guidance/page44420.html

Cydlynydd Ymgynghoriadau

Os bydd gennych gŵyn neu sylw ar y ffordd y mae SYG yn cynnal ymgynghoriad, dylech gysylltu â Chydlynydd Ymgynghoriadau SYG, Pat Thomas. PEIDIWCH ag anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at Pat Thomas. Mae'r Cydlynydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a nodir gan God Ymarfer y Llywodraeth, mae'n rhoi cyngor i dimau polisi ar sut i gynnal ymgynghoriadau ac mae'n ymchwilio i gwynion a wneir yn erbyn SYG.

Gellir e-bostio'r Cydlynydd ar: pat.thomas@ons.gov.uk neu fel arall ysgrifennwch ati yn Pat Thomas, Cydlynydd Ymgynghoriadau, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystafell 1.301, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Caerdydd, Casnewydd, NP10 8XG

Atodiad 5 Dogfen ymateb i ymgynghoriad

Office for National Statistics

Gwahoddir partïon sydd â diddordeb i ymateb gan ddefnyddio'r templed hwn erbyn y dyddiad cau drwy e-bost neu drwy'r post i:

E-bost: stakeholderconsultation@ons.gov.uk

Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ystafell 1.301
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Caerdydd
Casnewydd
NP10 8XG

1. Enw	

2. Rhowch gyfeiriad e-bost a/neu rif ffôn fel y gallwn gysylltu â chi os bydd angen i ni egluro unrhyw bwyntiau	
a) Rhif ffôn	
b) Cyfeiriad e-bost	

3. Os ydych yn cynrychioli grŵp neu sefydliad, darparwch fanylion	
a) Enw'r sefydliad	
b) Cyfeiriad y sefydliad	

4. Math o grŵp neu sefydliad (i gynorthwyo yn y broses o fonitro'r amrywiaeth o ddefnyddwyr y mae'r ymgynghoriad wedi'u cyrraedd.) Ticiwch un neu fwy o'r blychau			
Adran Llywodraeth Ganolog		Elusen	
Asiantaeth Llywodraeth		Sefydliad Rhyngwladol	
Llywodraeth Leol		Cyfryngau	
Addysg Uwch/Bellach		Arall (nodwch isod)	
GIG			
Sefydliad preifat/masnachol			

5. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y strategaeth arfaethedig, lle y bo'n bosibl, cyfeiriwch at yr adran y mae'r sylwadau yn cyfeirio ati (parheir ar y dudalen nesaf)